**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**
—
**Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddHinsawdd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddHinsawdd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddClimate@senedd.wales
senedd.wales/SeneddClimate
0300 200 6565

Jayne Bryant AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

10 Tachwedd 2025

Craffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27

Annwyl Jayne,

O ystyried diddordeb parhaus y Pwyllgor mewn cynnydd tuag at ddatgarboneiddio stoc tai bresennol Cymru, cytunodd yr Aelodau y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn am wybodaeth am y gyllideb ddrafft ar gyfer 2026-27 i helpu i gyflawni'r maes polisi hwn.

Byddwn yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r cwestiynau yn Atodiad 1 cyn gynted â phosibl, ac erbyn 3 Rhagfyr fan bellaf.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AS,
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Y Rhaglen Cartrefi Clyd

Dechreuodd yr iteriad diweddaraf o'r Rhaglen Cartrefi Clyd ym mis Ebrill 2024. Nod y rhaglen yw blaenoriaethu technolegau carbon isel 'pan fydd hynny'n gwneud synnwyr'. Mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y rhaglen wedi cynyddu 2% o £37.5m i £38.25m tra bod y dyraniad adnoddau wedi aros yr un fath ar £3.73m.

- Beth yw'r cyfiawnhad dros gynnydd o 2% yn unig yn y gyllideb gyfalaf o ystyried canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol i dlodi tanwydd nad yw buddsoddiad yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes "yn agos at" y lefel sydd ei hangen i gyrraedd targedau tlodi tanwydd?
- Beth yw eich amcangyfrif o nifer yr aelwydydd y byddwch yn eu cefnogi drwy'r rhaglen yn 2026-27, a sut y mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol?
- Sut rydych yn gweithio gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol i gydbwyso'r angen i ddatgarboneiddio cartrefi drwy ôl-osod yn ddyfnach â'r angen brys i ymdrin â thlodi tanwydd?
- A ydych chi'n dal yn fodlon â'r dull presennol o gynyddu'r cap cyllideb fesul aelwyd gan ddarparu ôl-osodiadau dyfnach i nifer is o aelwydydd nag yn y blynyddoedd blaenorol? Pa effaith fydd gan y dull hwn ar gynnydd tuag at dargedau tlodi tanwydd a newid hinsawdd?
- A allwch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i ddatblygu cynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd fel rhan o'r rhaglen?
- A allwch chi gadarnhau lefel unrhyw gyllid canlyniadol Barnett a gafwyd o ganlyniad i fuddsoddiad Llywodraeth y DU yn ei Chynllun Cartrefi Cynnes a sut mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn eich cyllideb?
- Pa ystyriaeth a roddwyd i glustnodi unrhyw gyllid canlyniadol ar gyfer buddsoddiad yn y rhaglen hon?

## Datgarboneiddio preswyl ac ansawdd

Mae cyllid cyfalaf ar gyfer datgarboneiddio preswyl ac ansawdd wedi cynyddu o £92m i £96.9m, tra bod y dyraniad adnoddau yn aros yr un fath ar £1.68m. Mae'r dyraniad cyfalaf o £96.9m yn cynnwys £3.06m o Gyfalaf Trafodion Ariannol sy'n ariannu'r Cynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru.

- Faint o gyfanswm y cyllid cyfalaf sydd wedi'i ddyrannu i'r Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (ORP) ar gyfer 2026-27?
- Sut mae'r ORP yn cael ei werthuso a sut mae hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio opsiynau polisi cyn Cyllideb Carbon 3?
- Faint o aelwydydd sydd wedi cael eu cefnogi gan gynllun Cartrefi Gwyrdd Cymru hyd yn hyn, beth yw gwerth cyfartalog y benthyciad a faint o aelwydydd ydych chi'n amcangyfrif y bydd y cynllun yn eu cefnogi yn 2026-27?